

# Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## Hosbis Skanda Vale

Dyddiad yr arolygiad: 21 a 22 Ionawr 2026

Dyddiad cyhoeddi: 24 Ebrill 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [AGIC@llyw.cymru](mailto:AGIC@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

ISBN Digidol 978-1-83745-521-8

© Hawlfraint y Goron 2026

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom .....	5
2. Crynodeb o'r arolygiad .....	6
3. Yr hyn a nodwyd gennym .....	10
Ansawdd Profiad y Claf .....	10
Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .....	14
Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .....	19
4. Y camau nesaf .....	22
Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .....	23
Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith .....	24
Atodiad C - Cynllun gwella .....	25

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Hosbis Skanda Vale ar 21 a 22 Ionawr 2026. Mae'r hosbis yn darparu gwasanaeth gofal lliniarol dan arweiniad nyrsys, wedi'i gefnogi gan dîm meddygol, gan ddarparu gofal a chymorth personol sydd wedi'u teilwra i anghenion unigol pob claf.

Ar adeg yr arolygiad, roedd y lleoliad yn darparu gofal seibiant 24 awr i hyd at chwech o bobl, am bum niwrnod a phedair noson yn olynol, o fewn un wythnos bob mis. Ni ddarperir gofal diwedd oes ar hyn o bryd. Roedd y gwasanaethau ychwanegol a gynigiwyd gan y lleoliad yn cynnwys hosbis ddydd a chwmniaeth o bell.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau uwch-arolygydd gofal iechyd AGIC, dau adolygydd cymheiriaid clinigol ac adolygydd profiad y claf.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o 17 o holiaduron gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd 55 gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

## 2. Crynodeb o'r arolygiad

### Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelwyd lefel nodedig o ofal a chymorth caredig, urddasol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn drwy gydol yr arolygiad. Roedd pob aelod o'r staff a'r gwirfoddolwyr yn ymgysylltu â'r cleifion a defnyddwyr yr hosbis ddydd mewn modd hamddenol, gan roi pwyslais ar ryngweithio yn unol ag anghenion, dewisiadau ac arferion unigol pob unigolyn. Roedd yr adborth a gafwyd o'r arolwg yn ategu hyn ac yn eithriadol o gadarnhaol ym mhob un o'r meysydd.

Roedd yr hosbis yn cynnig amrywiaeth o ardaloedd dan do ac awyr agored wedi'u cynllunio'n ofalus er mwyn i'r cleifion elwa ohonynt, gan gyfrannu at awyrgylch hamddenol a heddychlun ledled y lleoliad.

Roedd ystod o weithgareddau ac ardaloedd therapiwtig ar gael i'r cleifion a defnyddwyr yr hosbis ddydd. Roedd y rhain yn cynnwys ystafell ddydd lle'r oedd cadeiriau breichiau, man tawel yn yr awyr agored yn cynnwys llosgydd coed, mynediad at therapi tyllino a therapiau holistaidd eraill, ardal celf a chreffft, ac ardal aml-ffydd. Roedd y tiroedd hefyd wedi'u cynnal a'u cadw'n dda a gellid eu gweld o ardaloedd balconi a oedd yn arwain yn uniongyrchol o ystafelloedd gwely'r cleifion.

Roedd gan bob claf a oedd yn derbyn gofal seibiant dros nos fynediad at ystafelloedd en-suite, ac roedd rhai o'r ystafelloedd yn cynnwys ardal balconi awyr agored. Roedd pob ystafell wedi'i haddurno a'i dodrefnu i safon dda, ac yn cynnwys ystod o gyfarpar i ddiwallu anghenion corfforol a symudedd. Roedd llety dros nos hunangynhwysol ar gael i berthnasau hefyd.

Roedd ethos yr hosbis yn rhoi pwyslais clir ar rymuso'r cleifion i wneud penderfyniadau am eu gofal a'u cymorth, yn unol â'u dymuniadau, eu dewisiadau, a'u cynlluniau gofal a thriniaeth presennol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y staff a'r gwirfoddolwyr yn darparu lefel uchel o ofal caredig ac wedi'i deilwra at yr unigolyn
- Roedd amrywiaeth o weithgareddau therapiwtig a holistaidd ar gael
- Roedd yr amgylchedd yn darparu awyrgylch diogel a phwylllog.

### Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd yr hosbis yn nodedig o lân a threfnus ym mhob ardal ac roedd yr amgylchedd mewnol ac allanol wedi'i gynnal i safon uchel. Roedd y staff yn gweithio'n ddiwyd i sicrhau bod pob ardal o'r hosbis yn lân, yn hygyrch ac wedi'i chyflwyno'n dda.

Roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer asesu risgiau amgylcheddol cyffredinol, ac roedd pob rhan o'r hosbis yn ddiogel. Roedd gan yr hosbis amrywiaeth o gyfarpar ar gael ar gyfer gofal brys ac, ers yr arolygiad diwethaf, roedd diffibriliwr awtomataidd wedi'i brynu i'w ddefnyddio gan yr hosbis a'r gymuned.

Roedd y cleifion yn cael dewis o brydau bwyd, ac roedd darpariaeth dda ar gyfer anghenion a dewisiadau deietegol, hyd yn oed gydag ychydig iawn o rybudd ymlaen llaw. Roedd y prydau bwyd o ansawdd uchel o ran blas, cyflwyniad a maint y dognau. Wrth gael eu derbyn, roedd anghenion maeth a hydradu'r cleifion seibiant yn cael eu hasesu.

The treatment room was secure, visibly clean and well organised. We reviewed a sample of medication charts and found them to be fully completed and consistent with professional record-keeping standards.

Roedd cynlluniau gofal y cleifion, yr asesiadau a'r cofnodion nyrsio wedi'u cwblhau i safon broffesiynol dda ar y cyfan. Gwnaed argymhellion ynghylch camau dilynol yn ymwneud â chwympiadau a briwiau pwyso, yn ogystal â chofnodi'r ysbeidiau rhwng rowndiau bwriadol.

Roedd yn gadarnhaol gweld bod y staff wedi ymgymryd â hyfforddiant ar sepsis er mwyn cynyddu eu hyder wrth adnabod arwyddion cynnar sepsis. Fodd bynnag, nid oedd offeryn neu lwybr cydnabyddedig ar waith.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cofnodi camau dilynol ar gyfer y rhai sydd mewn perygl o gwmpo a chael briwiau pwyso
- Gweithredu offeryn / llwybr Sepsis a gydnabyddir yn genedlaethol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y lleoliad yn cael ei gynnal a'i gadw'n ddiogel ac yn effeithiol
- Roedd anghenion gofal y cleifion yn cael eu hasesu'n gadarn ymlaen llaw
- Roedd anghenion maeth yn cael eu diwallu'n dda.

## **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth**

Crynodeb cyffredinol:

Roedd pob un o'r 55 o aelodau o staff a ymatebodd i'n harolwg yn cytuno eu bod yn fodlon ar ansawdd y gofal y maent yn ei ddarparu, a bod preifatrwydd ac urddas y cleifion yn cael eu cynnal bob amser. Roedd pob un o'r ymatebwyr yn cytuno hefyd mai gofalu am y cleifion yw prif flaenoriaeth yr hosbis ac y byddent yn fodlon ar safon y gofal a ddarperir pe bai eu teulu neu eu ffrindiau eu hunain yn ei dderbyn.

Roedd pob un o'r ymatebwyr yn cytuno bod yr hosbis yn gefnogol, bod yr uwch-reolwyr yn weladwy, a bod modd dibynnu ar eu rheolwr uniongyrchol. Gwnaeth pob un o'r ymatebwyr argymhell Hosbis Skanda Vale fel lle da i weithio neu wirfoddoli ynddo.

Roedd llinellau adrodd ac atebolrwydd clir ar waith. Dangoswyd hyn drwy grwpiau rheoli gweithredol, cyfarfodydd pwyllgor dan arweiniad yr ymddiriedolwyr, a chadwyn adrodd ymlaen i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr. Roedd cofnodion y cyfarfodydd hyn ar gael ac yn gynhwysfawr.

Gwelwyd bod yr uwch-reolwyr a'r ymddiriedolwyr yn chwarae rhan weithgar yn y broses o redeg a goruchwyllo'r hosbis o ddydd i ddydd.

Roedd y gweithlu'n cynnwys staff cyflogedig a sylfaen fawr o wirfoddolwyr, ac roedd llawer ohonynt wedi bod yn rhan o'r lleoliad ers sawl blwyddyn. Roedd y gweithlu'n dangos lefel uchel o ymrwymiad a hyblygrwydd er mwyn sicrhau bod yr hosbis yn cael ei rhedeg yn effeithiol. Roedd system ar alwad ar waith ymhlith yr uwch-reolwyr hefyd.

Roedd prosesau recriwtio addas ar waith ar gyfer y staff a'r gwirfoddolwyr. Gwnaed argymhellion ynghylch hunanardystio statws y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn flynyddol, yn ogystal ag imiwneiddiadau'r gweithlu.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylid parhau i ddatblygu'r prosesau archwilio
- Dylai proses fod ar waith i'r staff a'r gwirfoddolwyr hunanddatgan newidiadau i'w statws DBS neu eu cofrestrriad proffesiynol
- Dylid gweithredu polisi a phroses ar gyfer imiwneiddio'r staff, gan gynnwys Hepatitis B.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yr adborth gan y staff a'r gwirfoddolwyr yn nodedig o gadarnhaol ym mhob maes
- Roedd yr adroddiadau llywodraethu a'r llinellau atebolrwydd wedi cryfhau
- Gwelwyd bod yr uwch-reolwyr a'r ymddiriedolwyr yn chwarae rhan weithgar.



## 3. Yr hyn a nodwyd gennym

### Ansawdd Profiad y Claf

#### Adborth gan gleifion

Gwnaethom wahodd y cleifion, y perthnasau a'r gofawyr i roi adborth drwy ein harolwg a thrwy ddod i'r grŵp defnyddwyr gwasanaeth. Cafwyd cyfanswm o 17 o ymatebion.

Roedd adborth yr arolwg yn gadarnhaol dros ben ar draws pob maes, a oedd yn cynnwys gwranddo, caredigrwydd a sensitifrwydd, preifatrwydd ac urddas, a darparu help gyda gofal, cymorth ac anghenion personol. Ategwyd hyn gan sgysiau a gynhaliwyd â'r cleifion a defnyddwyr yr hosbis yn ystod yr arolygiad.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

*"Mae'n anodd iawn gwella ar berffeithrwydd"*

*"Mae'r hosbis bob amser mewn cyflwr perffaith ac mae pawb yn gyfeillgar, yn gymwynasgar ac yn barchus iawn.... Fel y dywedodd fy mam, mae fel cael eich amgylchynu gan gwtsh mawr cynnes"*

*"Mae Skanda Vale wedi bod yn achubiaeth i mi ac wedi cynnig lle diogel i mi ddod, lle maent yn deall fy anghenion cymorth meddygol / corfforol ac emosiynol"*

#### Hybu, diogelu a gwella iechyd

Roedd ystod o weithgareddau ac ardaloedd therapiwtig ar gael yn yr hosbis i'r cleifion a defnyddwyr yr hosbis ddydd. Roedd y rhain yn cynnwys ystafell ddydd lle'r oedd cadeiriau breichiau, man tawel yn yr awyr agored yn cynnwys llosgydd coed, mynediad at therapi tyliino a therapiau holistaidd eraill, ardal celf a chreffft, ac ardal aml-ffydd. Roedd y tiroedd hefyd wedi'u cynnal a'u cadw'n dda a gellid eu gweld o ardaloedd balconi a oedd yn arwain yn uniongyrchol o ystafelloedd gwely'r cleifion.

Gwnaethom gadarnhau fod y cleifion wedi cael cynnig defnyddio'r holl gyfleusterau hyn wrth iddynt gael eu derbyn neu yn ystod eu cyfnod yn yr hosbis ddydd. Roedd y staff yn ymgysylltu â'r cleifion er mwyn deall beth oedd yn bwysig iddynt, gan gynnwys eu dewisiadau unigol, ac roeddent yn gweithio'n galed i hwyluso unrhyw

ddymuniadau. At ei gilydd, roedd y lleoliad yn arddangos dull wedi'i deilwra'n ofalus at yr unigolyn.

### **Urddas a pharch**

Gwelwyd lefel nodedig o ofal a chymorth caredig, urddasol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn drwy gydol yr arolygiad. Roedd pob aelod o'r staff a'r gwirfoddolwyr yn ymgysylltu â'r cleifion a defnyddwyr yr hosbis ddydd mewn modd hamddenol, gan roi pwyslais ar ryngweithio yn unol ag anghenion, dewisiadau ac arferion unigol pob unigolyn.

Roedd yr hosbis yn cynnig amrywiaeth o ardaloedd dan do ac awyr agored wedi'u cynllunio'n ofalus er mwyn i'r cleifion elwa ohonynt, gan gyfrannu at awyrgylch hamddenol a heddychlun ledled y lleoliad.

Roedd gan bob claf a oedd yn derbyn gofal seibiant dros nos fynediad at ystafelloedd en-suite, ac roedd rhai o'r ystafelloedd yn cynnwys ardal balconi awyr agored. Roedd pob ystafell wedi'i haddurno a'i dodrefnu i safon dda, ac yn cynnwys ystod o gyfarpar i ddiwallu anghenion corfforol a symudedd.

Roedd llety dros nos hunangynhwysol o safon uchel ar gael i'r perthnasau hefyd, wedi'i leoli i ffwrdd o brif adeilad yr hosbis, gan sicrhau y gallai'r cleifion barhau i fod yn agos at eu hanwyliaid yn ystod eu harhosiad.

### **Gwybodaeth i gleifion a chydysyniad cleifion**

Roedd gwybodaeth dda ar gael i gleifion, teuluoedd a gofalwyr i'w helpu i ddeall yr hosbis, ei gwasanaethau a'i chyfleusterau. Fel rhan o'r broses cyn derbyn cleifion, roedd y staff yn cynnal sgysiau manwl â nhw a'u perthnasau er mwyn deall y ffordd orau o gefnogi eu hanghenion, gan gynnwys cynnig y cyfle iddynt ymweld â'r hosbis ymlaen llaw.

Roedd ethos yr hosbis yn rhoi pwyslais clir ar rymuso'r cleifion i wneud penderfyniadau am eu gofal a'u cymorth, yn unol â'u dymuniadau, eu dewisiadau, a'u cynlluniau gofal a thriniaeth presennol. Roedd enghreifftiau'n cynnwys galluogi'r cleifion i ddewis eu harferion dyddiol a'u hoff weithgareddau therapiwtig, cefnogi'r cleifion i gymryd eu meddyginiaethau eu hunain lle y bo'n briodol, a hwyluso'r opsiwn i aelodau'r teulu neu ofalwyr aros ar y safle.

### **Cyfathrebu'n effeithiol**

Roedd arwyddion ym mhob rhan o'r lleoliad wedi'u lleoli'n dda, gan helpu'r cleifion a'r ymwelwyr i ddod o hyd i'w ffordd yn hawdd. Roedd hefyd nifer o staff a gwirfoddolwyr gerllaw i gefnogi a thywys y cleifion yn ôl yr angen.

Roedd gwybodaeth dda ar gael am yr hosbis a'r gwasanaethau i gleifion a pherthnasau wrth ddod i mewn i'r lleoliad. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn cymryd cymaint o amser ag y mae ei angen i ateb unrhyw ymholiadau gan y cleifion neu eu teuluoedd cyn iddynt gael eu derbyn.

Dywedodd tua 20% o'r ymatebwyr i'r arolwg staff wrthym eu bod yn gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn ased i'w groesawu, o ystyried demograffeg sylfaen defnyddwyr yr hosbis a'r gymuned leol, y gallai llawer ohonynt werthfawrogi'r gallu i sgwrsio yn Gymraeg.

### **Cynllunio a darparu gofal**

Roedd y cleifion a oedd yn cael eu derbyn i'r gwasanaeth yn cael eu hasesu yn erbyn set glir o feini prawf i sicrhau y gellid diwallu eu hanghenion, yn ogystal ag i sicrhau cydymffurfiaeth ag amodau cofrestru'r hosbis ag AGIC.

Roedd prosesau cadarn ar waith yn ystod y cam asesu i nodi anghenion clinigol y cleifion, ynghyd â'u gofynion corfforol, symudedd a llesiant ehangach. Roedd croeso hefyd i ddarparu gleifion a'u teuluoedd ymweld â'r hosbis ymlaen llaw i ystyried sut y gallai ddiwallu eu hanghenion o ran cael seibiant.

Roedd ystod nodedig o gyfarpar ar gael i ddiwallu anghenion iechyd corfforol y cleifion. Roedd hyn yn cynnwys matresi lleddfu pwysau, teclynnau codi ynghlwm wrth y nenfwd a theclynnau codi i sefyll i gefnogi symudedd, ynghyd â chyfarpar i ddiwallu anghenion gofal personol, fel mynd i'r toiled, cael cawod ac ymolchi.

### **Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol**

Mae'r hosbis yn darparu gwasanaeth cyffredinol, ni waeth beth fo ffydd neu gred y claf, a heb gost. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod y lleoliad yn parhau i fod yn hygyrch i bawb.

Yn achos cleifion ag anghenion corfforol, ysbrydol, crefyddol neu anghenion holistaidd eraill, roedd y gwasanaeth yn nodi'r rhain cyn eu derbyn, ac yn gwneud ymdrechion gweithredol i ddiwallu'r anghenion hyn. Roedd hyn yn cael ei ategu gan amrywiaeth o gyfarpar corfforol i gynorthwyo symudedd ac annibyniaeth, mynediad at ofod aml-ffydd, ac ardaloedd tawel ac ardaloedd ymlacio eraill.

### **Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth**

Roedd y cleifion, y teuluoedd a'r gofalwyr yn gallu rhoi adborth i'r lleoliad drwy amrywiaeth o ddulliau. Roedd hyn yn cynnwys yn electronig, ar bapur, neu wyneb yn wyneb. Roedd pob claf, ynghyd ag aelodau o'r teulu a gofalwyr y rhai a oedd yn mynychu'r gwasanaeth seibiant cleifion mewnol, yn cael eu gwahodd yn rheolaidd i roi adborth.

Roedd yr adborth gan gleifion a theuluoedd yn gadarnhaol dros ben, ac roedd canmoliaeth a negeseuon o ddiolchgarwch yn ffurfio rhan fawr o'r adborth a gafwyd gan y lleoliad.

Roedd y gwasanaeth yn gallu dangos y modd yr oedd wedi ymateb i adborth, gan gynnwys newidiadau diweddar i'r ddarpariaeth arlwyo.

Roedd proses gwyno ffurfiol ar gael, ond roedd nifer y pryderon ffurfiol a dderbyniwyd gan y lleoliad yn nodedig o isel. Roedd y lleoliad yn rhoi pwyslais ar ddatrys pryderon wyneb yn wyneb a thrwy gynnal diwylliant drws agored i aelodau'r uwch-dîm rheoli.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd yr amgylchedd mewnol ac allanol yn cael ei gynnal i safon uchel er mwyn sicrhau diogelwch a gwella profiad y claf. Roedd y staff yn gweithio'n ddiwyd i sicrhau bod pob ardal o'r hosbis yn lân, wedi'i chyflwyno'n dda, ac yn lleddfol.

Roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer asesu risgiau amgylcheddol cyffredinol, ac roedd camau adferol amserol yn cael eu cwblhau. Roedd hyn yn cynnwys archwiliadau diogelwch tân a legionella, ac roedd y ddau ohonynt yn dangos tystiolaeth o gamau dilynol yn cael eu cymryd. Fodd bynnag, cynghorir y lleoliad i sicrhau bod y cynlluniau gweithredu sy'n cyd-fynd ag unrhyw archwiliadau allanol yn cael eu cwblhau'n llawn, er mwyn dangos cydymffurfiaeth a chynnydd yn unol â'r camau gweithredu a argymhellwyd.

Roedd pob ardal o'r hosbis yn ddiogel, gan gynnwys y fynedfa flaen, a oedd yn cael ei rheoli gan system gloch. Roedd mynediad i'r ardaloedd clinigol allweddol yn cael ei reoli drwy system mynediad ffob gyfyngedig.

Roedd gan yr hosbis amrywiaeth o gyfarpar ar gyfer gofal brys, gan gynnwys ocsigen a chyfarpar cysylltiedig. Ers yr arolygiad diwethaf, roedd y lleoliad hefyd wedi prynu diffibriliwr awtomataidd, a oedd ar gael i'w ddefnyddio mewn argyfwng. Roedd y ddyfais hon yn gyflawn, wedi'i gwefru ac yn barod i'w defnyddio.

## Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd yr hosbis yn nodedig o lân ac yn drefnus iawn ym mhob ardal. Gwelwyd y staff glanhau yn gweithio'n ddiwyd drwy gydol yr arolygiad, a gwnaethant ddangos gwybodaeth dda am y modd y mae eu rôl yn cyfrannu at arferion atal a rheoli heintiau da.

Roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau yn unol â'u rolau a'u cyfrifoldebau, ac roedd yn gadarnhaol nodi bod hyrwyddwr atal a rheoli heintiau yn gweithio yno i annog arferion da ledled yr hosbis.

Roedd gan yr hosbis fynediad at ystod o gyfarpar diogelu personol, gwisgoedd wedi'u golchi, a chanfuwyd bod yr holl gyfarpar y gellid ei aildefnyddio wedi'i sterileiddio ac yn barod i'w ddefnyddio.

Roedd dyfeisiau miniog mwy diogel yn cael eu defnyddio ac roedd biniau offer miniog yn cael eu storio a'u defnyddio'n briodol.

### **Maeth**

Roedd y cleifion yn cael dewis o brydau bwyd, ac roedd darpariaeth dda ar gyfer anghenion a dewisiadau deietegol. Bwytaodd y tîm arolygu ginio gyda defnyddwyr yr hosbis, a gwnaeth pob un ohonynt ddweud bod y prydau bwyd o ansawdd uchel o ran blas, cyflwyniad a maint y dognau.

Wrth gael eu derbyn, roedd anghenion maeth a hydradu'r cleifion yn cael eu hasesu. Roedd y staff yn ymwybodol pryd y gallai fod angen i'r cleifion gael amser neu gymorth ychwanegol i fwyta, ac roedd cynlluniau gofal ychwanegol yn cael eu rhoi ar waith lle bo angen.

Roedd cegin eu hunain ar gael i'r cleifion a'u teuluoedd hefyd er mwyn paratoi diodydd a byrbrydau ysgafn.

### **Rheoli meddyginiaethau**

Roedd yr ystafell drin yn ddiogel, yn lân yr olwg ac yn drefnus. Roedd gwiriadau o'r tymheredd amgylchynol a thymheredd yr oergell glinigol yn cael eu cwblhau a'u cofnodi'n rheolaidd.

Er nad oedd cyfle i ni arsylwi ar rownd feddyginiaeth, gwnaethom edrych ar sampl o siartiau meddyginiaeth a gwelsom eu bod wedi'u cwblhau'n llawn ac yn gyson â safonau cadw cofnodion proffesiynol. Er nad oedd y lleoliad yn defnyddio Siart Meddyginiaeth Cymru Gyfan, roedd ei ddogfennaeth ei hun yn briodol i ddiwallu anghenion y cleifion.

Nid oedd y lleoliad yn cadw ei stoc ei hun o feddyginiaethau na chyffuriau a reolir, ond roedd yn storio meddyginiaethau'r cleifion a ddaeth gyda nhw. Roedd systemau clir ar waith ar gyfer gwirio, storio a rhoi'r meddyginiaethau hyn. Roedd llwybrau diffiniedig hefyd ar waith ar gyfer cael unrhyw feddyginiaethau ychwanegol y gallai fod eu hangen ar glaf yn ystod ei gyfnod yn yr ysbyty.

Nid oedd ocsigen yn cael ei storio'n rheolaidd ar y safle, ond byddai'n cael ei archebu fesul achos pan oedd yn glinigol ofynnol. Roedd y staff nyrsio wedi cael hyfforddiant ar silindrau ocsigen yn unol â hysbysiad cenedlaethol diweddar ynghylch diogelwch cleifion.

Roedd proses dda ar waith i reoli cleifion sy'n cymryd eu meddyginiaethau eu hunain. Roedd hyn yn cynnwys storfa ddiogel yn eu hystafell a system ar gyfer asesu galluedd y cleifion a'u gallu i gymryd eu meddyginiaethau eu hunain. Fodd bynnag, cynghorir y lleoliad i ystyried cynnwys rhoi meddyginiaethau mewn modd

cudd yn ei bolisi rheoli meddyginiaethau wrth iddo barhau i ddatblygu darpariaeth yr hosbis, ac ehangu ei feini prawf atgyfeirio.

Er bod rhai gwallau o ran meddyginiaeth wedi'u cofnodi ar gofnodion digwyddiadau, ni chanfuwyd unrhyw wall o bryder sylweddol. Roedd hyn yn dynodi diwylliant adrodd cadarnhaol, ynghyd â throthwy isel yn gyffredinol ar gyfer adrodd a dysgu o ddigwyddiadau.

### **Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed**

Roedd yr hosbis yn ddiogel yn ystod oriau gweithredu a'r tu allan iddynt. Roedd anghenion y cleifion yn cael eu hasesu cyn iddynt gyrraedd er mwyn sicrhau bod nifer priodol o staff nyrsio a gweithwyr cymorth gofal iechyd wedi'u dyrannu, er enghraifft pan oedd gan glaf anawsterau gwybyddol.

Dangosodd y nyrs arweiniol ddealltwriaeth dda o egwyddorion diogelu a'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, a gwnaethom drafod cais diweddar yn ystod yr arolygiad.

Roedd y staff a'r gwirfoddolwyr wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu a oedd yn briodol i'w rolau a'u cyfrifoldebau, ac roedd lefelau da o gydymffurfiaeth. Roedd y staff hefyd yn cael eu cefnogi gan arweinwyr diogelu clinigol a rheolaethol dynodedig.

### **Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol**

Roedd yr holl gyfarpar y gellid ei aildefnyddio yn lân ac yn barod i'w ddefnyddio. Roedd tystiolaeth o wasanaethu rheolaidd i sicrhau bod y cyfarpar yn parhau'n addas at y diben.

### **Gofal diogel a chlinigol effeithiol**

Roedd cynlluniau gofal y cleifion, yr asesiadau a'r cofnodion nyrsio wedi'u cwblhau i safon broffesiynol dda ar y cyfan.

Roedd y ddogfennaeth cyn derbyn yn gynhwysfawr, a gwnaed ymdrechion nodedig i ddeall yr unigolyn a'i anghenion. Roedd y cofnodion nyrsio yn nodiadau'r cleifion yn cynnwys naratif manwl. Roedd y cynlluniau gofal yn gymesur â hyd yr arhosiad, ac roeddent ar waith ym mhob cofnod heblaw un yn achos cleifion a nodwyd fel rhai sy'n wynebu risg o gwmpo neu friwiau pwysu. Gwelwyd bod y crynodebau rhyddhau yn cynnwys lefel dda o fanylder i lywio gofalwyr a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill.

**Dylai'r lleoliad sicrhau bod camau dilynol ar gyfer y rhai sy'n wynebu risg o gwmpo a/neu friwiau pwysu yn cael eu cofnodi'n gyson.**

Roedd yn gadarnhaol gweld bod y staff wedi ymgymryd â hyfforddiant ar sepsis er mwyn cynyddu eu hyder wrth adnabod arwyddion cynnar sepsis. Fodd bynnag, nid oedd adnodd neu lwybr cydnabyddedig ar waith. Roedd y lleoliad eisoes wedi nodi bod hyn yn faes i'w gryfhau.

**Dylai'r lleoliad sicrhau bod offeryn / llwybr Sepsis a gydnabyddir yn genedlaethol ar waith i'w ddilyn pe bai cyflwr claf yn dirywio, ond gyda chyflwr newydd y gellid o bosibl ei wrydroi.**

Roedd rowndiau bwriadol ar waith i roi dull strwythuredig a chyson i'r staff nyrsio ddiwallu anghenion sylfaenol y cleifion, megis eu hystum, eu hanghenion personol a rheoli poen. Gwelsom fod anghenion y cleifion yn cael eu diwallu'n dda a bod cofnodion rheolaidd yn nodiadau'r cleifion. Fodd bynnag, rydym yn argymhell bod yr ysbeidiau rhwng rowndiau bwriadol yn cael eu hamgylchu'n gywir ar ddogfennaeth y cleifion er mwyn sicrhau cysondeb parhaus.

**Dylai'r lleoliad sicrhau bod amllder y rowndiau'n cael ei nodi'n gywir ar gofnod pob claf.**

Lle y bo'n berthnasol, roedd gan gleifion ffurflenni uchafswm gofal a 'peidiwch â dechrau adfywio cardiopwlmonaidd (DNACPR)' ar ffeil eisoes wrth iddynt gael eu derbyn. Roedd cynllunio gofal yn hyn o beth yn gymesur o ystyried y ddarpariaeth seibiant bresennol.

**Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd**

Roedd gan y lleoliad broses ar waith i gofnodi a lledaenu hysbysiadau diogelwch cleifion cenedlaethol a chanllawiau clinigol wedi'u diweddarau.

Roedd cynllun a phroses archwilio newydd wedi'u rhoi ar waith yn ddiweddar. Roedd hyn yn cynnwys amrywiaeth dda o archwiliadau rheolaidd ac ad-hoc clinigol briodol, ac roedd trefniadau adrodd a goruchwyllo yn cael eu cyflawni drwy bwyllgorau llywodraethu. Wrth i brosesau archwilio aeddfedu, dylai'r lleoliad sicrhau ei fod yn cau'r cylch yn llwyr ar ganlyniadau archwiliadau, gan gynnwys nodi camau gweithredu'n glir, neilltuo perchnogaeth a chynnal ailarchwiliadau er mwyn dangos y gwersi a ddysgwyd a'r gwelliannau.

**Dylai'r lleoliad sicrhau bod ei brosesau archwilio yn parhau i gael eu datblygu yn unol â'r canfyddiadau uchod.**

**Rheoli cofnodion**

Roedd cofnodion yn cael eu cadw'n ddiogel ar system cofnodion cleifion a gydnabyddir yn genedlaethol. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o ddogfennau papur yn dal i gael eu defnyddio oherwydd nad oedd elfennau o'r system ddigidol yn diwallu

anghenion y gwasanaeth yn llawn. Rydym yn argymhell defnyddio un system pryd bynnag y bo'n ymarferol bosibl, er mwyn lleihau dyblygu a'r potensial ar gyfer gwallau diangen.

**Dylai'r lleoliad sicrhau bod un system cofnodion cleifion yn cael ei defnyddio, pryd bynnag y bo'n ymarferol bosibl.**

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Adborth gan Staff

Gwnaethon wahodd y staff a'r gwirfoddolwyr i roi adborth drwy ein harolwg a thrwy ddod i'w grŵp defnyddwyr gwasanaeth. Cawsom 55 o ymatebion ac roedd yr holl adborth yn gadarnhaol dros ben.

Roedd pob un o'r ymatebwyr yn cytuno eu bod yn fodlon ar ansawdd y gofal y maent yn ei ddarparu, a bod preifatrwydd ac urddas y cleifion yn cael eu cynnal bob amser. Roedd pob un o'r ymatebwyr yn cytuno hefyd mai gofalu am y cleifion yw prif flaenoriaeth yr hosbis ac y byddent yn fodlon ar safon y gofal a ddarperir pe bai eu teulu neu eu ffrindiau eu hunain yn ei dderbyn.

Roedd pob un o'r ymatebwyr yn cytuno bod yr hosbis yn gefnogol, bod yr uwch-reolwyr yn weladwy, a bod modd dibynnu ar eu rheolwr uniongyrchol. Gwnaeth pob un o'r ymatebwyr argymhell Hosbis Skanda Vale fel lle da i weithio neu wirfoddoli ynddo.

Roedd sylwadau'r staff yn cynnwys y canlynol:

*"Skanda Vale yw'r gweithle hapusaf i mi ei brofi erioed (rwy'n 86 oed)"*

*"Mae Hosbis Skanda Vale nid yn unig yn gofalu am ei chleifion a'u hanwyliaid, ond hefyd am y gymuned o bobl sy'n rhan o'i gweithlu. Mae'n lle hyfryd i fod..."*

*"Mae'r hosbis yn canolbwyntio'n llwyr ar ofal cleifion wedi'i deilwra at yr unigolyn, mae popeth yn cael ei wneud gyda dymuniadau'r claf yn ganolog i'w holl athroniaeth."*

## Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd llinellau adrodd ac atebolrwydd clir ar waith. Dangoswyd hyn drwy grwpiau rheoli gweithredol, cyfarfodydd pwyllgor dan arweiniad yr ymddiriedolwyr, a chadwyn adrodd ymlaen i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr. Roedd cofnodion y cyfarfodydd hyn ar gael ac yn gynhwysfawr.

Gwelwyd bod yr uwch-reolwyr a'r ymddiriedolwyr yn chwarae rhan weithgar yn y broses o redeg a goruchwyllo'r hosbis o ddydd i ddydd. Roedd yr ymddiriedolwyr y gwnaethom gwrdd â nhw yn siarad yn angerddol gan amlygu gwybodaeth a gweledigaeth glir ar gyfer y lleoliad.

### **Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau**

Roedd yn gadarnhaol nodi datblygiad diweddar system cofnodi digwyddiadau. Roedd yn ymddangos bod trothwy isel yn gyffredinol ar gyfer cofnodi digwyddiadau, a oedd yn cyfrannu at ddiwylliant o ddysgu a gwella amserol. Roedd cynllun archwilio blynyddol wedi'i ddatblygu drwy archwiliadau rheolaidd ac ymatebol, yn seiliedig ar ddysgu. Wrth i'r prosesau hyn aeddfedu ac i sicrhau bod unrhyw wersi a ddysgwyd wedi'u hymgorffori, dylai'r lleoliad sicrhau ei fod yn cymryd camau i ailarchwilio unrhyw feysydd sy'n peri pryder, gan sicrhau bod camau gweithredu a pherchnogion wedi'u nodi'n glir.

### **Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu**

Roedd prosesau recriwtio addas ar waith ar gyfer y staff a'r gwirfoddolwyr. Roedd hyn yn cynnwys gweithdrefnau cyfweld, gwirio geirdaon, a gwirio cofrestriadau staff clinigol, ac roedd hyn i gyd yn amlwg yn y sampl o ffeiliau staff a welsom.

Roedd tystiolaeth o wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cynnal ar y lefel briodol. Fodd bynnag, rydym yn argymhell bod y lleoliad yn gofyn i'r staff a'r gwirfoddolwyr hunanddatgan unrhyw newidiadau a allai effeithio ar eu statws DBS, neu statws eu cofrestriad proffesiynol, yn flynyddol. Gallai hyn fod yn rhan o'r broses arfarnu flynyddol.

**Dylai'r lleoliad sicrhau bod proses ar waith i'r staff a'r gwirfoddolwyr hunanddatgan unrhyw newidiadau i'w statws DBS neu statws eu cofrestriad proffesiynol yn flynyddol.**

Ar gyfer staff a allai ddod i gysylltiad â gwaed neu hylifau'r corff, mae angen i'r lleoliad gofnodi eu statws Hepatitis B cyfredol. Roedd hyn eisoes yn cael ei archwilio adeg yr arolygiad. Dylai'r lleoliad ystyried canllawiau Llyfr Gwyrdd Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (Pennod 18) a llunio polisi a phroses briodol. Dylai hyn gynnwys canllawiau ar gyfer sefyllfaoedd lle cynghorir yn erbyn y brechlyn, ar gyfer staff sy'n gwrthod y brechiad, ac ar gyfer y rhai nad ydynt yn ymateb i'r brechlyn.

**Dylai'r lleoliad weithredu polisi a phroses ar gyfer imiwneiddio staff, gan gynnwys Hepatitis B.**

### **Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol**

Ar adeg yr arolygiad, roedd y lleoliad yn darparu gofal seibiant 24 awr i hyd at chwech o bobl, am hyd at bum niwrnod a phedair noson yn olynol ar y tro, o fewn

un wythnos bob mis. Roedd y gwasanaethau ychwanegol a gynigiwyd gan y lleoliad yn cynnwys hosbis ddydd a chwmnïaeth o bell.

Mynegwyd awydd gan y lleoliad i ehangu'r ddarpariaeth hon, fel y mae'r adnoddau'n caniatáu, er mwyn amddiffyn diogelwch y cleifion a'r profiad cyffredinol. Roedd y tîm arolygu o'r farn nad yw'r gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio'n ddigonol ar ei ffurf bresennol, er gwaethaf y ddarpariaeth therapiwtig a holistaidd o safon y mae'n ei darparu i gleifion a theuluoedd.

Roedd y gweithlu'n cynnwys staff cyflogedig a sylfaen fawr o wirfoddolwyr, ac roedd llawer ohonynt wedi bod yn rhan o'r lleoliad ers sawl blwyddyn. Roedd y gweithlu'n dangos lefel uchel o ymrwymiad a hyblygrwydd er mwyn sicrhau bod yr hosbis yn cael ei rhedeg yn effeithiol. Roedd system ar alwad ar waith ymhlith yr uwch-reolwyr hefyd.

Roedd gwasanaeth meddygol yn cael ei ddarparu yn ystod cyfnodau seibiant gan ddau glinigydd sydd wedi'u cofrestru â'r Cyngor Meddygol Cyffredinol, ac ar drefniant yn ôl y gofyn ar adegau eraill. Roedd eu rolau'n cyfrannu at drefniadau llywodraethu clinigol ac arweinyddiaeth, ac roeddent hefyd yn rhoi cymorth uniongyrchol i'r staff nyrzio ac yn cymryd amser i siarad yn ystyrlon â'r cleifion a'u teuluoedd.

Roedd systemau ar waith i sicrhau bod staff a gwirfoddolwyr newydd yn cael cyfnod sefydlu. Roedd hyn yn cynnwys cwblhau modiwlau hyfforddiant gorfodol ar-lein. Fodd bynnag, oherwydd y nifer mawr o wirfoddolwyr a heriau ynghylch cael mynediad at ddysgu ar-lein, roedd y lleoliad wedi dewis yn ddiweddar gynnal diwrnodau hyfforddi wyneb yn wyneb yn ymdrin â phynciau hanfodol. Roedd cydymffurfiaeth â'r sesiynau hyfforddi hyn yn cael ei fonitro'n dda.

Roedd pob un o'r ymatebwyr i'r arolwg heblaw un yn teimlo eu bod wedi cael hyfforddiant priodol i ymgymryd â'u rôl, a chyflwynodd sawl aelod o'r staff sylwadau cadarnhaol ar ansawdd yr hyfforddiant a ddarparwyd gan y lleoliad.

Gwnaeth y mwyafrif o'r staff gadarnhau eu bod wedi cael arfarniad yn ystod y 12 mis diwethaf.

## 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Gwelwyd nifer bach (tair) o eitemau a oedd wedi darfod yn yr ystafell drin, ymhlith eitemau cyfredol.	Gall hyn effeithio ar effeithiolrwydd a/neu sterileiddiad yr eitemau hyn.	Cafodd yr eitemau hyn eu symud oddi yno a rhoddwyd gwybod amdanynt i'r uwch-aelodau o'r staff.	Symudwyd yr eitemau hyn oddi yno a chawsom sicrwydd y byddai gwirio'r eitemau hyn yn cael ei gynnwys yn y gwiriadau stoc arferol o hyn ymlaen.

# Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

**Gwasanaeth:**

**Dyddiad yr arolygiad:**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Ddim yn gymwys					
2.					
3.					
4.					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

# Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Hosbis Skanda Vale

Dyddiad yr arolygiad: 21-22 Ionawr 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Risg i ofal diogel ac effeithiol	Dylai'r lleoliad sicrhau bod camau dilynol ar gyfer y rhai sy'n wynebu risg o gwmpo a/neu friwiau pwyso yn cael eu cofnodi'n gyson.	Rheoliadau Gofal lechyd Annibynnol (Cymru) 2011  Rheoliad 15	Mae'r tîm nyrsio wedi cael ei atgoffa o bwysigrwydd asesiadau risg cywir a chamau gweithredu priodol. Bydd hyn yn cael ei archwilio er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth	Pennaeth y Tîm Darparu Gofal  Athena Stevens	03/26 ar gyfer atgoffa'r tîm  Archwiliad erbyn diwedd mis Mai 2026
2. Risg i ofal diogel ac effeithiol	Dylai'r lleoliad sicrhau bod offeryn / llwybr Sepsis a gydnabyddir yn genedlaethol ar waith i'w ddilyn pe bai cyflwr claf yn dirywio, ond gyda chyflwr	Rheoliad 15	Mae offeryn NEWS2 wedi'i roi ar waith o gyfnod seibiant mis Mawrth ymlaen.	Pennaeth y Tîm Darparu Gofal  Athena Stevens	Offeryn 03/26  Polisi a Gweithdref

		newydd y gellid o bosibl ei myndroi.		Mae Polisi a Gweithdrefn Sepsis yn cael eu llunio a byddant yn cael eu cyflwyno ynghyd â sesiwn hyfforddi ar gyfer y Tîm Darparu Gofal.		n erbyn dechrau 04/26  Hyfforddian t gloywi ar gyfer y tîm erbyn 05/26
3.	Risg i ofal diogel ac effeithiol	Dylai'r lleoliad sicrhau bod amllder y rowndiau'n cael ei nodi'n gywir ar gofnod pob claf.	Rheoliad 15	Atgoffa arweinwyr y shifftiau i sicrhau bod amllderau'n cael eu hychwanegu at y taflenni rowndiau gofal ar gyfer pob claf.	Pennaeth y Tîm Darparu Gofal Athena Stevens	Eu hatgoffa yng nghyfarfod y Tîm Darparu Gofal 05/03/26  l'w archwilio erbyn diwedd mis Mai 2026

4.	Risg i ddysgu a gwella ansawdd	<b>Dylai'r lleoliad sicrhau bod ei brosesau archwilio yn parhau i gael eu datblygu yn unol â'r canfyddiadau.</b>	Rheoliad 19	Bydd y fframwaith archwilio mewnol ac annibynnol sy'n cael ei ddatblygu yn cael ei weithredu erbyn canol mis Ebrill.	Arweinydd Sicrhau Ansawdd  Ahalia Seelan	Diwedd mis Ebrill
5.	Risg i ofal diogel ac effeithiol	<b>Dylai'r lleoliad sicrhau bod un system cofnodion cleifion yn cael ei defnyddio, pryd bynnag y bo'n ymarferol bosibl.</b>	Rheoliad 23	Atgoffa'r tîm ein bod yn cofnodi ar CHAI (system cadw cofnodion cleifion electronig) ac yn gwneud cyn lleied â phosibl o gofnodion â llaw. Gweithredu'r broses o sganio a lanlwytho dogfennau - dylai'r broses ddiwygiedig nodi y bydd unrhyw beth y gellir ei sganio a'i lanlwytho a'i fonitro yn cael ei archwilio.  Dechrau gwerthuso systemau cofnodion cleifion eraill a fyddai'n fwy	Pennaeth Gweithrediadau  Aquila Muir	Diwedd mis Ebrill

				cynhwysfawr wrth ddiwallu anghenion yr hosbis mewn fformat electronig.		
6.	Risg i'r gweithlu	<b>Dylai'r lleoliad sicrhau bod proses ar waith i'r staff a'r gwirfoddolwyr hunanddatgan unrhyw newidiadau i'w statws DBS neu statws eu cofrestrriad proffesiynol yn flynyddol.</b>	Rheoliad 21	Mae ffurflen hunanardystio flynyddol wedi'i llunio a'i chyhoeddi ar ein System Rheoli Dogfennau. Bydd yn cael ei gweinyddu'n flynyddol gan y gweinyddwyr.	Pennaeth Pobl Y Brawd Jakob Willi	Diwedd mis Mehefin
7.	Risg i'r gweithlu	<b>Dylai'r lleoliad weithredu polisi a phroses ar gyfer imiwneiddio staff, gan gynnwys Hepatitis B.</b>	Rheoliad 21	Rhoi polisi a phroses ar waith ar gyfer imiwneiddio staff	Pennaeth Pobl Y Brawd Jakob Willi	Diwedd mis Ebrill

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### **Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (priflythrennau): Y Brawd Jakob Willi**

Swydd: Rheolwr yr Hosbis / Rheolwr Cofrestredig  
Dyddiad: 27/3/2026